# Y COLEG GWYN (THE NORTH WALES BAPTIST COLLEGE)

England & Wales · Charity number 525779

## Details

| | |
|---|---|
| **Other names** | THE NORTH WALES BAPTIST COLLEGE BANGOR, THE NORTH WALES BAPTIST COLLEGE BANGOR/COLEG Y BEDYDDWYR BANGOR, COLEG BEDYDDWYR GOGLEDD CYMRU |
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Other |
| **Registered** | 1964-09-29 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | 12 New Park Road<br>Holyhead<br>LL65 1PH |
| **Phone** | 01407761231 |
| **Email** | coleg-gwyn@hotmail.co.uk |

## Activities

**Objects:** ADVANCE THE CHRISTIAN RELIGION PARTICULARLY, BUT NOT EXCLUSIVELY IN ACCORDANCE WITH THE DOCTRINES OF THE BAPTIST DENOMINATION.

**Activities:** To advance the Christian religion particularly, but not exclusively in accordance with the doctrines of the Baptist Denomination.

## Classification

- **How:** Makes Grants To Individuals, Provides Human Resources, Provides Buildings/facilities/open Space, Provides Services, Sponsors Or Undertakes Research
- **What:** Education/training, Religious Activities
- **Who:** Other Charities Or Voluntary Bodies, Other Defined Groups, The General Public/mankind

Downloaded from opencharities.uk/ew/525779

## Geography

- **Area of benefit:** PREFERENCE FOR THE PRINCIPALITY OF WALES
- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £45,778 | £48,165 | - | - |
| 2024-03-31 | £5,120 | £40,780 | - | - |
| 2023-03-31 | £12,960 | £36,684 | - | - |
| 2022-03-31 | £17,240 | £38,097 | - | - |
| 2021-03-31 | £106,564 | £40,926 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **Rev TECWYN IFAN** | Chair | 2015-06-20 |
| MARGARET ANN OWEN | | 2019-10-03 |
| REVEREND JOHN RICE ROWLANDS | | |
| The Welsh Baptist Union Corporation Ltd | | 1998-04-20 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/525779

# Accounts

Y Coleg Gwyn

Rhif Elusen : 525779

# Adroddiad a Datganiad Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

J Llywelyn Hughes ai Gwmni
Cyfrifwyr Siartredig
Ty'r Bont
LLANRWST
LL26 0EY
01492 640 391

**Y Coleg Gwyn**

**Cynnwys y Datganiad Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Gwybodaeth cyfreithiol a gweinyddol | 1 |
| Adroddiad yr ymddiriedolwyr | 2 |
| Cyfrif derbyniadau a thaliadau | 3 a 4 |
| Datganiad o asedau a dyledion | 5 |
| Adroddiad arholwr annibynnol i'r ymddiriedolwyr | 6 |

**Y Coleg Gwyn**

**Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol**

Mae Y Coleg Gwyn yn elusen gofrestredig ers 29 Medi 1964 (rhif 525779) ac wedi ei lywio gan ei gyfansoddiad sef "Trust deed".

**Cyfeiriad cyswllt**

Penparc
12 New Park Road
Caergybi
Gwynedd
LL65 1PH

**Ymddiriedolwyr gwarcheidwad**

Welsh Baptist Union Corporation Limited

**Ymddiriedolwyr**

Ymddiriedolwyr y coleg yn ystod y flwyddyn oedd:

- Y Parchedig Tecwyn Ifan (Cadeirydd)
- Mrs Margaret Ann Owen

Mae'r ymddiriedolwyr yn cael eu penodi neu eu ail benodi yn flynyddol yn y cyfarfod blynyddol.

**Arolygwyr Annibynnol**

J Llywelyn Hughes a'i Gwmni
Cyfrifwyr Siartredig
Ty'r Bont
Llanrwst
LL26 0EY

**Y Coleg Gwyn**
**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025**

**Amcanion a gweithgareddau**
Amcan y Coleg yw dyrchafu'r grefydd Gristnogol yn benodol, ond ddim yn llwyr, yn unol â'r athrawiaethau o Enwad y Bedyddwyr. Mae'r Coleg yn cynnig hyfforddiant i fyfyrwyr ac yn darparu cymorth ariannol tuag at yr hyfforddiant (yn ôl barn yr ymddiriedolwyr).

**Cyflawniadau**
Yn ystod y flwyddyn roedd yna ddwy fyfyrwraig Leyg (o'r Adran Gymraeg o Undeb Bedyddwyr Cymru). Roedd staff y coleg hefyd wedi bod yn cynorthwyo hyfforddiant nifer o fyfyrwyr cyd-enwadol a hyfforddiant allanol.

**Hyfforddiant a defnydd o'r Adeiladau**
Mae'r nifer fechan o staff y coleg (sy'n rhan-amser) wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol bu i'r Adran Hyfforddi o Eglwys Bresbyteraidd Cymru ddechrau gwagio ei asedau a'i offer swyddfa. Mae staff y coleg wedi parhau gweithio ar lein, ac mae llawer o'r hyfforddiant lleygwyr yn digwydd trwy ZOOM. Mae hyn yn effeithiol iawn, yn enwedig am fod y myfyrwyr yn byw yn y de. Mae'r Cyfarwyddwr Hyfforddiant wedi parhau i gyfarfod a'r myfyrwyr wyneb i wyneb, ac yn darparu tiwtorial, yn ei hardaloedd cartref i gyd-ddyddio a chyfarfodydd pwyllgorau a chyfarfodydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Rydym yn parhau i ddatblygu ein cysylltiad gyda'n cyfeillion yng Ngholeg Bedyddwyr Caerdydd.

Yn dilyn adolygiad yn ystod 2023-2024 bu i Bwyllgor Gwaith a Rheoli'r Coleg werthuso sefyllfa a dyfodol y coleg. Penderfynwyd ffurfiol pwyllgor arbennig i edrych ar sut gall y Bedyddwyr Cymraeg ddarparu hyfforddiant i'r dyfodol. Yn ystod 2024-2025 rydym wedi gwneud hyn mewn cydweithrediad ag Undeb Bedyddwyr Cymru, Corfforaeth yr Undeb, a Choleg Bedyddwyr Caerdydd. Gan sylweddoli bod nifer yr ymgeiswyr i'r weinidogaeth yn lleihau, a bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n dod ymlaen yn byw yn y de; teimlwyd y byddai'n rhesymol i ganoli'r hyfforddiant yn ein chwaer goleg yn y dyfodol - Coleg Bedyddwyr Caerdydd. Felly rydym wedi dechrau'r broses i gau'r coleg ym Mangor erbyn tua diwedd Mawrth 2026.

**Ymddiriedolwyr ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a Rheoli**
Yn dilyn marwolaeth Y Parchedig John Rice Rowlands BA, BD yn 2023, nid ydym wedi penodi Ymddiriedolwr newydd yn y cyfamser. Rydym yn ddiolchgar bod Miss Eleri Lloyd Jones (Cymanfa Bedyddwyr Arfon), a'r Parchedig Deb Stammers (Cymanfa Bedyddwyr Môn) wedi ymuno a'r Pwyllgor Gwaith a Rheoli.

**Rhoddion, ac Adolygiad Cyllid,**
Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Coleg dderbyn rhoddion oddi wrth eglwysi, Cymanfaoedd ac unigolion i gynorthwyo ein gwaith. Mae'r cyfanswm flynyddol wedi lleihau yn sylweddoli dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn anffodus yn adlewyrchu sefyllfa a niferoedd yr eglwysi sy'n parhau ar draws Cymru. Ers cyfnod y *Coronavirus* nid ydym wedi gosod yr hostel i fyfyrwyr y brifysgol, oherwydd goblygiadau Iechyd a Diogelwch a Hylendid, Mae hyn wedi creu colled sylweddol o incwm.

Oherwydd y penderfyniad i ddechrau'r broses o gau'r Coleg Gwyn ym Mangor, a'r lleihad sylweddoli yn yr incwm blynyddol bu i'r Pwyllgor Gwaith a Rheoli a'r Ymddiriedolwyr ganiatâi symud £40,000 o'r buddsoddiadau i'r Gronfa Gyfredol i sicrhau taliadau cynnal a chadw, gwres a golau, staffio, gwagio'r adeiladai, symud ein llyfrgell, a threfnu atgyweirio rhannau o'r Hostel.

Mae'r arian yn y banc o £ 57,006 yn cynnwys cronfa at ddefnydd hyfforddiant myfyrwyr. Mae gan y Coleg hefyd fuddsoddiadau yn y farchnad stoc yng ngofal cwmni Canaccord Genuity Wealth Management. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd arwyddion bod pethau'n gwella yn y farchnad, a bod llogau'n codi unwaith eto. Gwerth y buddsoddiad yma ar 31 Mawrth 2025 oedd £54,780

Ar ran yr Ymddiriedolwyr:

[signature] ..................................................

15. 1. 2026
..................................................
Dyddiad

## Y Coleg Gwyn

### Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

| | Cronfa Gyffredinol | | Cronfeydd Eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2024 | 2025 | 2024 |
| | £ | £ | £ | £ |
| **Derbyniadau Incwm** | | | | |
| **Ffynonellau Gwirfoddol** | | | | |
| Casgliadau a rhoddion | 3,143 | 2,094 | - | - |
| Rhodd Ymddiriedolwyr Bethlehem | - | - | - | - |
| | 3,143 | 2,094 | - | - |
| **Derbyniadau drwy Gytundeb** | | | | |
| Cyfraniad at swyddfa weinyddol | - | - | - | - |
| | - | - | - | - |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | | | | |
| Cronfa Brynhyfryd | 1,892 | 2,113 | - | - |
| Incwm o osod y coleg | - | - | - | - |
| Incwm o osod Glynafon | - | - | - | - |
| Llog banc | 743 | 913 | 387 | 476 |
| Gwerthiant Buddsoddiadau | 40,000 | - | - | - |
| | 42,635 | 3,026 | 387 | 476 |
| **Cyfanswm Derbyniadau Incwm** | 45,778 | 5,120 | 387 | 476 |
| **Cyfanswm Derbyniadau** | 45,778 | 5,120 | 387 | 476 |

## Y Coleg Gwyn

### Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 (Parhad)

| | Cronfa Gyffredinol | | Cronfeydd Eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2024 | 2025 | 2024 |
| | £ | £ | £ | £ |
| **Gwariant Elusennol Uniongyrchol** | | | | |
| **Costau'r Adeilad** | | | | |
| Trethi,yswiriant,gwres,golau,trethi dwr | 13,239 | 12,972 | - | - |
| Trwsio a garddio | 1,207 | 1,252 | - | - |
| Cost staff | 1,224 | 1,248 | - | - |
| Nwyddau cegin a glanhau ayyb | 73 | 350 | - | - |
| Trwydded teledu Glynafon | 162 | 159 | - | - |
| | 15,905 | 15,981 | - | - |
| **Costau Academaidd** | | | | |
| Cost staff academaidd | 5,086 | 4,882 | - | - |
| Costau hyfforddiant | 5,719 | 438 | - | - |
| | 10,805 | 5,320 | - | - |
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Cost staff gweinyddol a hyfforddi | 16,239 | 15,585 | - | - |
| Costau gweinyddol ac argraffu ayyb | 853 | 773 | - | - |
| Ffôn | 1,726 | 1,703 | - | - |
| Ffi'r cyfrifwyr | 1,202 | 1,166 | - | - |
| Costau'r we | 252 | 252 | - | - |
| Costau yn ymwneud a cau y coleg | 1,183 | - | - | - |
| | 21,455 | 19,479 | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | 48,165 | 40,780 | - | - |
| **Cyfanswm Taliadau** | 48,165 | 40,780 | - | - |
| Taliadau yn fwy na derbyniadau am y flwyddyn | (2,387) | (35,660) | 387 | 476 |
| Arian ar 31 Mawrth 2024 | 26,202 | 61,862 | 32,804 | 32,328 |
| Arian ar 31 Mawrth 2025 | 23,815 | 26,202 | 33,191 | 32,804 |

## Y Coleg Gwyn

### Datganiad o Asedau a Dyledion ar 31 Mawrth 2025

| | Cronfa Gyffredinol | | Cronfeydd Eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2024 | 2025 | 2024 |
| | £ | £ | £ | £ |
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Mewn llaw ac yn y banc | 23,815 | 26,202 | 33,191 | 32,804 |
| | 23,815 | 26,202 | 33,191 | 32,804 |
| **Dyledwyr** | | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 3,951 | 4,875 | - | - |
| | 3,951 | 4,875 | - | - |
| **Credydwyr** | | | | |
| Credydwyr a chroniadau | 1,129 | 1,129 | - | - |
| | 1,129 | 1,129 | - | - |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| Cyfranddaliadau ac ati: | | | | |
| Prisiad portffolio | 54,780 | 92,974 | - | - |
| **Asedau at ddefnydd yr Elusen** | | | | |
| Tir ac adeilad y coleg, a'r tŷ | 650,000 | 650,000 | - | - |
| Llungopiwr a chyfrifiadau | - | 2,290 | - | - |
| Offer cegin | - | 415 | - | - |

**Nodiadau**

1) Paratowyd y cyfrifon yma ar sail derbyniadau a thaliadau yn ystod y flwyddyn ac maent yn cydymffurfio â gofynion statudol.

2) Derbyniwyd cyngor proffesiynol a buddsoddwyd yr arian a gafwyd o werthu Brynhyfryd ar gost o £121,385, gan ddisgwyl bod buddsoddi'n well dros y tymor hir na chadw'r arian yn y banc. Y bwriad yw y bydd y cynghorwyr Cannacord Genuity Wealth Management yn parhau i gynghori'r pwyllgor rheoli.

3) Costau Staff

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gros | 22,076 | 21,261 |
| Pensiwn | 473 | 454 |
| | 22,549 | 21,715 |

## Y Coleg Gwyn

### Adroddiad yr arholwr annibynnol i'r ymddiriedolwyr

Rhoddaf adroddiad ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 sydd wedi eu gosod allan ar dudalennau 3 i 5.

**Cyfrifoldebau priodol yr arholwr a'r ymddiriedolwyr**

Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad am y flwyddyn o dan Adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 (Y Ddeddf 2011) ond fod angen arholiad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- arholi'r cyfrifon o dan Adran 145 o Ddeddf 2011;
- dilyn y canllawiau a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddir gan y Comisiynwyr Elusennau o dan Adran 145 (5) (b) o Ddeddf 2011; a
- i ddatgan os oes unrhyw faterion penodol wedi dod i'm sylw.

**Sail adroddiad yr arolygwr annibynnol**

Cynhaliwyd fy arholiad yn unol a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddir gan y Comiynwyr Elusennau. Mae arholiad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifo a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon gyda'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw eitemau anarferol neu ddatgeliadau yn y cyfrifon. a chwennych esboniadau gennych chwi fel ymddiriedolwyr ar y materion hynny. Nid yw'r gweithdrefnau a gynhaliwyd yn darparu'r dystiolaeth y byddai ei angen o dan archwiliad, ac felly, nid wyf yn datgan barn os yw'r cyfrifon yn rhoddi 'gwir a theg', ac mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodwyd yn y datganiad isod.

**Datganiad yr arolygwr annibynnol**

Mewn cysylltiad â fy arholiad, nid oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw:

1) sy'n rhoi rheswm rhesymol i mi gredu, yn faterol fod gofynion:

   - i gadw cofnodion cyfrifol yn unol ag Adran 130 o'r Ddeddf Elusennau 2011; ac
   - i baratoi cyfrifon sy'n cydymffurfio a gofynion cyfrifyddol Deddf 2011 heb eu cwrdd; neu.

2) bod unrhyw fater angen ei ddwyn i sylw er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn o'r cyfrifon.

D E Thomas
Cyfrifydd Siartredig
J Llywelyn Hughes ai Gwmni
Ty'r Bont
LLANRWST
LL26 0EY

15. 01. 2026
Dyddiad

# Accounts

## Y Coleg Gwyn

### Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 (Parhad)

| | Cronfa Gyffredinol | | Cronfeydd Eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021 | 2020 | 2021 | 2020 |
| | £ | £ | £ | £ |
| **Gwariant Elusennol Uniongyrchol** | | | | |
| **Costau'r Adeilad** | | | | |
| Trethi,yswiriant,gwres,golau,trethi dwr | 7,854 | 7,873 | - | - |
| Trwsio a garddio | 1,245 | 1,864 | - | - |
| Cost staff | 1,080 | 1,220 | - | - |
| Nwyddau cegin a glanhau ayyb | 334 | 703 | - | - |
| Trwydded teledu Glynafon | 157 | 153 | - | - |
| | 10,670 | 11,813 | - | - |
| **Costau Academaidd** | | | | |
| Cost staff academaidd | 4,324 | 4,294 | - | - |
| Costau hyfforddiant | 1,806 | 2,283 | - | - |
| | 6,130 | 6,577 | - | - |
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Cost staff gweinyddol a hyfforddi | 20,978 | 21,110 | - | - |
| Costau gweinyddol ac argraffu ayyb | 820 | 864 | - | - |
| Ffôn | 1,265 | 1,213 | - | - |
| Ffi'r cyfrifwyr | 1,063 | 958 | - | - |
| Tanysgrifiadau | - | 426 | - | - |
| Costau'r we | - | - | - | - |
| Costau proffesiynol | - | 125 | - | - |
| Amrywiol | - | - | - | - |
| | 24,126 | 24,696 | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | 40,926 | 43,086 | - | - |
| **Cyfanswm Taliadau** | 40,926 | 43,086 | - | - |
| Taliadau yn llai na derbyniadau am y flwyddyn | 65,638 | 38,595 | 23 | 125 |
| Arian ar 31 Mawrth 2020 | 40,805 | 2,210 | 32,284 | 32,159 |
| Arian ar 31 Mawrth 2021 | 106,443 | 40,805 | 32,307 | 32,284 |

# Y Coleg Gwyn

## Datganiad o Asedau a Dyledion ar 31 Mawrth 2021

| | Cronfa Gyffredinol | | Cronfeydd Eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021 | 2020 | 2021 | 2020 |
| | £ | £ | £ | £ |
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Mewn llaw ac yn y banc | 106,443 | 40,805 | 32,307 | 32,284 |
| | 106,443 | 40,805 | 32,307 | 32,284 |
| **Dyledwyr** | | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 2,670 | 2,668 | - | - |
| | 2,670 | 2,668 | - | - |
| **Credydwyr** | | | | |
| Credydwyr a chroniadau | 1,133 | 1,570 | - | - |
| | 1,133 | 1,570 | - | - |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| Cyfranddaliadau ac ati: | | | | |
| Prisiad portffolio | 94,160 | 80,051 | - | - |
| **Asedau at ddefnydd yr Elusen** | | | | |
| Tir ac adeilad y coleg, a'r tŷ | 650,000 | 650,000 | - | - |
| Llungopiwr | 1,080 | 1,080 | - | - |
| Offer cegin | 415 | 415 | - | - |

**Nodiadau**

1) Paratowyd y cyfrifon yma ar sail derbyniadau a thaliadau yn ystod y flwyddyn ac maent yn cydymffurfio â gofynion statudol.

2) Derbyniwyd cyngor proffesiynol a buddsoddwyd yr arian a gafwyd o werthu Brynhyfryd ar gost o £121,385, gan ddisgwyl bod buddsoddi'n well dros y tymor hir na chadw'r arian yn y banc. Y bwriad yw y bydd y cynghorwyr Cannacord Genuity Wealth Management yn parhau i gynghori'r pwyllgor rheoli.

3) Costau Staff

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gros | 25,980 | 26,225 |
| Pensiwn | 402 | 399 |
| | 26,382 | 26,624 |

## Y Coleg Gwyn

### Adroddiad yr arholwr annibynnol i'r ymddiriedolwyr

Rhoddaf adroddiad ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 sydd wedi eu gosod allan ar dudalennau 3 i 5.

**Cyfrifoldebau priodol yr arholwr a'r ymddiriedolwyr**

Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad am y flwyddyn o dan Adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 (Y Ddeddf 2011) ond fod angen arholiad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- arholi'r cyfrifon o dan Adran 145 o Ddeddf 2011;
- dilyn y canllawiau a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddir gan y Comisiynwyr Elusennau o dan Adran 145 (5) (b) o Ddeddf 2011; a
- i ddatgan os oes unrhyw faterion penodol wedi dod i'm sylw.

**Sail adroddiad yr arolygwr annibynnol**

Cynhaliwyd fy arholiad yn unol a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddir gan y Comiynwyr Elusennau. Mae arholiad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifo a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon gyda'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw eitemau anarferol neu ddatgeliadau yn y cyfrifon. a chwennych esboniadau gennych chwi fel ymddiriedolwyr ar y materion hynny. Nid yw'r gweithdrefnau a gynhaliwyd yn darparu'r dystiolaeth y byddai ei angen o dan archwiliad, ac felly, nid wyf yn datgan barn os yw'r cyfrifon yn rhoddi 'gwir a theg', ac mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodwyd yn y datganiad isod.

**Datganiad yr arolygwr annibynnol**

Mewn cysylltiad â fy arholiad, nid oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw:

1) sy'n rhoi rheswm rhesymol i mi gredu, yn faterol fod gofynion:
   - i gadw cofnodion cyfrifol yn unol ag Adran 130 o'r Ddeddf Elusennau 2011; ac
   - i baratoi cyfrifon sy'n cydymffurfio a gofynion cyfrifyddol Deddf 2011 heb eu cwrdd; neu.
2) bod unrhyw fater angen ei ddwyn i sylw er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn o'r cyfrifon.

RAThomas ........................ 15.12.2021 ........................
Dyddiad

R A Thomas
Cyfrifydd Siartredig
J Llywelyn Hughes ai Gwmni
Ty'r Bont
LLANRWST
LL26 0EY

**Y Coleg Gwyn**

**Adroddiad a Datganiad Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021**

**J Llywelyn Hughes ai Gwmni**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**Ty'r Bont**
**LLANRWST**
**LL26 0EY**
**01492 640 391**

**Y Coleg Gwyn**

**Cynnwys y Datganiad Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
| --- | --- |
| Gwybodaeth cyfreithiol a gweinyddol | 1 |
| Adroddiad yr ymddiriedolwyr | 2 |
| Cyfrif derbyniadau a thaliadau | 3 a 4 |
| Datganiad o asedau a dyledion | 5 |
| Adroddiad arholwr annibynnol i'r ymddiriedolwyr | 6 |

# Y Coleg Gwyn

## Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol

Mae Y Coleg Gwyn yn elusen gofrestredig ers 29 Medi 1964 (rhif 525779) ac wedi ei lywio gan ei gyfansoddiad sef "Trust deed".

### Cyfeiriad cyswllt

Penparc
12 New Park Road
Caergybi
Gwynedd
LL65 1PH

### Ymddiriedolwyr gwarcheidwad

Welsh Baptist Union Corporation Limited

### Ymddiriedolwyr

Ymddiriedolwyr y coleg yn ystod y flwyddyn ac ers diwedd y flwyddyn yw:

- Y Parchedig John Rice Rowlands
- Miss Einwen Mary Jones
- Y Parchedig Tecwyn Ifan (Cadeirydd)
- Mrs Ann Elizabeth Owen

Mae'r ymddiriedolwyr yn cael eu penodi neu eu ail benodi yn flynyddol yn y cyfarfod blynyddol.

### Arolygwyr Annibynnol

J Llywelyn Hughes a'i Gwmni
Cyfrifwyr Siartredig
Ty'r Bont
Llanrwst
LL26 0EY

**Y Coleg Gwyn**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021**

**Amcanion a gweithgareddau**

Amcan y Coleg yw dyrchafu'r grefydd Gristnogol yn benodol, ond ddim yn llwyr, yn unol â'r athrawiaethau o Enwad y Bedyddwyr. Mae'r Coleg yn cynnig hyfforddiant i fyfyrwyr ac yn darparu cymorth ariannol tuag at yr hyfforddiant (yn ôl barn yr ymddiriedolwyr).

**Cyflawniadau**

Yn ystod y flwyddyn roedd yna un myfyriwr i'r weinidogaeth lawn amser, a dau fyfyriwr fel Pregethwyr Lleyg (o'r Adran Gymraeg o Undeb Bedyddwyr Cymru). Roedd y myfyriwr i'r weinidogaeth lawn amser hefyd yn derbyn hyfforddiant ymarferol drwy gydweithrediad a Choleg Bedyddwyr De Cymru. Roedd yna ddau weinidog wedi eu hordeinio'n ddiweddar yn dilyn hyfforddiant 'Cynllun Gweinidogion Newydd Undeb Bedyddwyr Cymru'. Roedd staff y coleg hefyd wedi bod yn cynorthwyo hyfforddiant nifer o fyfyrwyr cyd-enwadol o draddodiadau'r Annibynwyr a'r Presbyteriaid yng Nghymru.

**Staff ac effaith y Coronafirws ar Hyfforddiant**

Mae'r staff (sy'n rhan-amser) wedi parhau yn ystod y flwyddyn; gan gynnwys dau aelod o Adran Hyfforddi Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Yn dilyn y problemau rhyngwladol oherwydd y pandemig Coronafirws (COVID-19) bu i staff y coleg orfod cyfyngu eu hyfforddiant ymarferol ar y safle ym Mangor i gydymffurfio a chanllawiau a rheolau Llywodraeth Cymru. Bu i'r Bedyddwyr barhau gyda hyfforddiant o bell (ar y we neu dros y ffôn); a'r staff yn dod i mewn i'r coleg neu gweithio oddi cartref. Bu i staff yr Eglwys Bresbyteraidd fynd ar y cynllun 'furlough' am gyfnod, cyn ail ddechrau yn ddiweddar. Gobeithir y bydd hyfforddiant ymarferol ar y safle yn cael ail ddechrau yn fuan.

**Ymddiriedolwyr**

Gyda thristwch, rydym yn nodi ein bod wedi colli Miss Einwen M Jones (yr ymddiriedolwr hynaf), ar ddechrau'r flwyddyn. Bu'n gweithio'n galed dros y blynyddoedd ar ran ei heglwys, a Chymanfa Bedyddwyr Dinbych, Fflint a Meirion; ac yn gyn-lywydd o Undeb Bedyddwyr Cymru. Roedd hefyd wedi bod yn weithgar gyda Mudiad y Chwiorydd a'r Genhadaeth Dramor. Diolchwn i Dduw am ei hymrwymiad a'i chefnogaeth i waith yr Arglwydd, ac am ei chyfeillgarwch.

**Rhoddion ac Adolygiad Cyllid**

Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Coleg dderbyn rhodd anrhydeddus (£100,000) gan Ymddiriedolwyr Bethlehem, Eglwys y Bedyddwyr, Ynys Môn; eglwys sydd bellach wedi cau. Bu iddo gael ei roi tuag at waith cyffredinol y coleg.

Mae arian yn y banc o £138750 yn cynnwys cronfa at ddefnydd hyfforddiant myfyrwyr. Mae gan y Coleg hefyd fuddsoddiadau yn y farchnad stoc o dan ofal Cannacord Genuity Wealth Management. Er bod gwerth y stoc wedi lleihau yn ystod y pandemig, mae yna arwyddion bod pethau'n gwella yn y farchnad. Gwerth y buddsoddiad yma ar 31 Mawrth 2021 oedd £94160.

Ar ran yr Ymddiriedolwyr

........Jeayn R. Hann........................

2 . 2 . 2022
..........................................................
Dyddiad

## Y Coleg Gwyn

### Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021

| | Cronfa Gyffredinol | | Cronfeydd Eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021 | 2020 | 2021 | 2020 |
| | £ | £ | £ | £ |
| **Derbyniadau Incwm** | | | | |
| **Ffynonellau Gwirfoddol** | | | | |
| Casgliadau a thanysgrifiadau personol | 200 | 250 | - | - |
| Cronfa myfyrwyr – cyfraniadau eglwysi a chymanfaeodd | 2,191 | 4,432 | - | - |
| Rhodd Ymddiriedolwyr Bethlehem | 100,000 | - | - | - |
| | 102,391 | 4,682 | - | - |
| **Derbyniadau drwy Gytundeb** | | | | |
| Cyfraniad at swyddfa weinyddol | - | 5,512 | - | - |
| | - | 5,512 | - | - |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | | | | |
| Cronfa Brynhyfryd | 2,141 | 4,208 | - | - |
| Incwm o osod y coleg | - | 5,000 | - | - |
| Incwm o osod Glynafon | 2,030 | 12,270 | - | - |
| Llog banc | 2 | 9 | 23 | 96 |
| Gwerthiant Buddsoddiadau | - | 50,000 | - | - |
| | 4,173 | 71,487 | 23 | 96 |
| **Cyfanswm Derbyniadau Incwm** | 106,564 | 81,681 | 23 | 125 |
| **Cyfanswm Derbyniadau** | 106,564 | 81,681 | 23 | 125 |